# Arolwg Ymweliadau Diwrnod Twristiaeth Cymru


# Adroddiad Blynyddol 2022




Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 39/2024
ISBN Digidol: 978-1-83625-130-9

# Aeth trigolion Prydain Fawr ar 1.2 biliwn o deithiau dydd a dros nos ym Mhrydain Fawr yn 2022. £77.9 biliwn oedd y gwariant ar bob taith ddomestig ym Mhrydain Fawr yn 2022.


## Teithiau Dros Nos 2022





## Gwariant Dros Nos 2022





## Ymweliadau Dydd a Theithiau Dros Nos 2022





## Ymweliadau Dydd Twristiaeth 2022




## Gwariant Ymweliadau Dydd 2022




## Gwariant Dydd a Gwariant Dros Nos 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Twristiaeth Dros Nos Domestig Prydain Fawr (GBTS) 2022 ac Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022

BMG success decoded

# Cyflwyniad

- Arolwg defnyddwyr cenedlaethol yw Arolwg Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS). Mae'n mesur niferoedd a gwerth ymweliadau dydd twristiaeth domestig gan drigolion Prydain Fawr. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ystadegau ymweliadau dydd twristiaeth domestig ar gyfer 2022 ar gyfer Cymru. Drwy'r adroddiad cyfan, defnyddir yr ystadegau ymweliadau dydd twristiaeth ar gyfer 2021 i amlygu tueddiadau o ran teithiau a gwariant. Sylwer bod data 2021 (Ebrill i Ragfyr) yn ddata diwygiedig. Cyhoeddir canlyniadau manwl ar gyfer Lloegr a'r Alban gan VisitEngland a VisitScotland yn eu trefn.
- Mae'r ystadegau o 2021 ymlaen yn seiliedig ar arolwg ar-lein cyfunol newydd. Mae hwn yn disodli'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) ar wahân ac Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS), a gynhaliwyd tan ddiwedd 2019. Mae dull ac adroddiadau ansawdd ar gael ar wefan Croeso Cymru. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ddiffyg cymharedd â data hyd at 2019.
- Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer tri diffiniad o ymweliadau dydd hamdden: Ymweliadau Dydd Twristiaeth (y diffiniad safonol, y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arno); Ymweliadau Dydd Hamdden 3 awr a mwy (y mesur ehangaf); Ymweliadau Dydd Twristiaeth – Gweithgareddau Craidd i Dwristiaeth (y mesur culaf).
- Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am nodweddion ymweliadau, â chymariaethau pan fo'n briodol. Mae adroddiadau tri misol a data manwl ar ymweliadau dydd twristiaeth ar gael ar ffurf Excel ar wefan Croeso Cymru.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer 2021 a 2022 yn adrodd ar wahanol gyfnodau o gasglu data, ar gyfer 2021 Ebrill i Ragfyr yw'r cyfnod ac ar gyfer 2022, Ionawr i Ragfyr yw'r cyfnod. Mae hyn oherwydd pandemig COVID-19 pan nad oedd yn bosibl teithio yn ystod 3 mis cyntaf 2021 oherwydd cyfyngiadau symud pan na chaniatawyd teithiau hamdden dros nos. Mae'r canlyniadau yn gymaradwy ar draws gwledydd (Lloegr, yr Alban a Chymru).
- Noddir yr arolwg ar y cyd gan VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru. Cynhelir yr arolwg ar hyn o bryd gan yr asiantaeth ymchwil annibynnol, BMG. Ynghyd ag Arolwg Twristiaeth Dros Nos Prydain Fawr (GBDVS), sydd ar gael fel adroddiad ar wahân, yr arolygon hyn yw'r arolygon mwyaf a mwyaf cynhwysfawr o deithio domestig Prydain Fawr.

Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint ac unrhyw hawliau eraill yn yr holl ddeunydd yn yr adroddiad hwn yn eiddo i Croeso Cymru

# Methodoleg (1/2)

- 350,000 o ymatebwyr yw'r maint sampl blynyddol ar gyfer GBDVS. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys ymatebwyr nad ydynt wedi bod ar unrhyw deithiau cymwys. Mae'r samplau blynyddol wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws 52 wythnos y flwyddyn.
- Ers 2020, mae GBDVS wedi uno â GBTS, gan ddefnyddio dull panel cymysg ar-lein, sy'n newid sylweddol o'r dull wyneb yn wyneb cyn 2020. Caiff ymatebwyr eu canfod trwy blatfform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr paneli ag achrediad ESOMAR.
- Cesglir data ar nifer yr ymweliadau dydd domestig yr aethpwyd arnynt gan oedolion 16 oed a hŷn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r arolwg hefyd yn casglu manylion unrhyw blant sy'n rhan o deithiau dros nos, a chaiff y rhain eu cynnwys yn y ffigurau ar ffurf gros amcangyfrifedig ar gyfer ymweliad a gwariant.
- Gwnaed nifer o newidiadau i'r holiadur yn 2022, a graddnodwyd y data cyn 2022 i gymryd y newidiadau hyn i ystyriaeth.
- Casglwyd data ar gyfer 9 mis yn 2021 (Ebrill i Ragfyr) yn erbyn 12 mis yn 2022 (Ionawr i Ragfyr). Mae hyn oherwydd pandemig COVID-19 pan roedd teithio wedi'i gyfyngu. Er nad yw data blynyddol 2021 a 2022 yn gymaradwy yn uniongyrchol oherwydd y gwahanol gyfnodau amser teithio, darperir sylwadau ar wahaniaethau perthnasol rhwng Ebrill i Ragfyr 2021 ac Ebrill i Ragfyr 2022 drwy'r adroddiad cyfan hwn.
- Cyhoeddwyd data 2021 a 2022 y GBDVS fel ystadegau sy'n cael eu datblygu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar wefan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.
- Mae'r amcangyfrifon misol yn destun cyfyngiadau ar faint sampl a newidiadau tymhorol o ran teithiau a gyflawnir ar draws y flwyddyn.

# Methodoleg (2/2)

- Defnyddiwyd cwotâu pleth pan fo’n ymarferol. Ym mhob gwlad, caiff cwotâu eu pennu yn ôl oedran a rhywedd (plethu), gradd gymdeithasol fras a rhanbarthau Cymru. Caiff y data eu pwysoli i adlewyrchu’r boblogaeth yn fwy cywir.
- Meintiau sylfaen yw nifer y teithiau cymwys, yn hytrach na nifer yr ymatebwyr. Defnyddir targedau tri misol ar gyfer Cymru a’r Alban oherwydd meintiau sylfaen misol bach.
- Nifer y teithiau ar gyfer amcangyfrifon 2022 yn seiliedig ar:

| Gwlad | Meintiau Sylfaen Heb eu Pwysoli 2022 |
|---|---|
| **Prydain Fawr** | 10,161 |
| **Lloegr** | 7,885 |
| **Yr Alban** | 1,537 |
| **Cymru** | 993 |

- Mae gwybodaeth fwy manwl am newidiadau dull, cwotâu a phwysoli ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd Cefndirol sydd ar gael ar wefan Croeso Cymru.

BMG
success decoded

# Diffiniadau

Ceir 3 prif fesur ar gyfer ymweliadau dydd yn yr adroddiad hwn – Ymweliadau Dydd Hamdden 3 awr a mwy (y mesur ehangaf), Ymweliadau Dydd Twristiaeth (y mesur safonol) ac Ymweliadau Dydd Twristiaeth – Gweithgareddau Craidd i Dwristiaeth (y mesur culaf). Mae Ymweliadau Dydd Twristiaeth yn is-set o'r ymweliadau dydd hamdden ehangach. I fod yn Ymweliad Dydd Prydain Fawr cymwys, mae'n rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

| **Ymweliadau Dydd Hamdden 3 awr a mwy** | **Ymweliadau Dydd Twristiaeth – Prif bwyslais yr adroddiad hwn** | **Ymweliadau Dydd Twristiaeth – Gweithgareddau Craidd i Dwristiaeth** |
|---|---|---|
| — Wedi para 3 awr neu fwy (gan gynnwys amser teithio)<br>— Cymryd rhan mewn 1 neu fwy o weithgareddau hamdden cymwys<br>— Mae'n rhaid nad oedd dros nos | Yn ogystal â'r meini prawf ymweliad dydd hamdden 3 awr a mwy, mae'r canlynol yn berthnasol i Ymweliad Dydd Twristiaeth:<br>— Fe'i cyflawnir llai nag unwaith yr wythnos<br>— Mae'n cynnwys ymweliad â lle y tu allan i'r awdurdod lleol lle cychwynnodd yr ymweliad, ac eithrio ymweliadau lle mae'r prif weithgaredd yn atyniad ymwelwyr, mynd i ddigwyddiad cyhoeddus neu i wylio chwaraeon byw. Yn yr achosion hyn, diddymir yr angen i fod wedi ymweld y tu allan i'r awdurdod lleol cychwynnol. | Yn ogystal â'r meini prawf ymweliad dydd twristiaeth, mae'n rhaid bod ymweliad wedi cynnwys un o'r canlynol fel y prif weithgaredd a gyflawnwyd yn ystod yr ymweliad:<br>— Mynd i atyniad ymwelwyr e.e., tŷ hanesyddol, parc thema, amgueddfa, ac ati.<br>— Ymweld â lleoedd ac archwilio ardaloedd.<br>— Triniaethau sba / harddwch / iechyd<br>— Encilfan neu fyfyrdod<br>— Mynd i ddigwyddiad cyhoeddus a drefnwyd (e.e., arddangosfa, cyngerdd, ffair, chwaraeon byw ac ati.)<br>— Ymweld ag oriel gelf<br>— Ymweld ag amgueddfa.<br>— Mynd i ganolfan ddiwylliannol leol<br>— Gwylio chwaraeon byw (nid ar y teledu) |

# Cyd-destun

- **Costau byw:** Dechreuodd chwyddiant y DU, fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), gynyddu ddiwedd gwanwyn 2021 a chynyddodd yn weddol gyson trwy weddill 2021 a 2022, gan gyrraedd brig o 11.1% ym mis Tachwedd 2022. 9.2% oedd y gyfradd chwyddiant gyfartalog yn y DU ar gyfer 2022 yn seiliedig ar CPI. Efallai fod hyn wedi cael effaith ar bellter, hyd a nifer y lleoedd a ymwelwyd ar ymweliadau domestig, pan wnaeth trigolion Prydain leihau'r pellter a deithiwyd, hyd yr ymweliad dydd a nifer y lleoliadau a ymwelwyd ar ymweliad dydd.

- **Gweithredu diwydiannol:** Canfu gwaith ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol y tarfwyd ar gynlluniau teithio bron i 1 o bob 5 o bobl yn ystod Rhagfyr 2022 oherwydd streiciau yn y sector trafnidiaeth. Dywedodd bron i hanner y rhai yr effeithiwyd arnynt nad oeddent yn gallu mynd i weithgareddau hamdden.

- **Tywydd:** Ar y cyfan, 2022 oedd y flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd erioed yn y DU a hefyd un o'r mwyaf heulog. Cofnodwyd tymheredd uchaf erioed yn y DU o 40.3˚C ym mis Gorffennaf, ond Mehefin ac Awst oedd yn arbennig o heulog.

- **COVID-19:** Diddymwyd cyfyngiadau symud llawn ddiwedd mis Mawrth 2021, ac fe'u disodlwyd gan fap ffordd allan o gyfyngiadau symud hyd at fis Gorffennaf 21. Fodd bynnag, ni ddiddymwyd y cyfyngiadau terfynol ar deithio rhyngwladol tan fis Chwefror 2022. Yn ôl Traciwr Sentiment Domestig Visit Britain, cynyddodd cyfforddusrwydd â gweithgareddau bob dydd fel bwyta mewn bwyty ac ymweld â gweithgareddau dan do ar ôl diddymu'r cyfyngiadau terfynol hyn gan sefydlogi erbyn diwedd 2022 i 'sgôr cyfforddusrwydd cyfartalog' o 3.2.

# Crynodeb



# Crynodeb o'r canfyddiadau

**SYLWER: Mae pob cymhariaeth rhwng ystadegau 2021 a 2022 ar gyfer cyfnodau cymaradwy, Ebrill i Ragfyr, y ddwy flwyddyn. Mae'r holl sylwadau eraill ar yr ystadegau yn cyfeirio at Ionawr i Ragfyr 2022.**

— Roedd 2.8 biliwn o ymweliadau dydd hamdden â Phrydain Fawr yn para 3 awr neu fwy yn 2022. O'r rhain, roedd 1.1 biliwn yn ymweliadau dydd twristiaeth. Cynyddodd ymweliadau dydd twristiaeth 42% yn 2022, o gymharu Ebrill i Ragfyr 2021 ag Ebrill i Ragfyr 2022. Cyflawnwyd 373.1 miliwn o ymweliadau dydd yn benodol ar gyfer gweithgareddau craidd i dwristiaeth (h.y. atyniadau ymwelwyr) yn 2022.

— Cynyddodd gwariant ar ymweliadau dydd twristiaeth â Phrydain Fawr yn 2022 hefyd, i £45.0 biliwn, cynnydd o 46%, a allai adlewyrchu chwyddiant cynyddol.

— Roedd 62.0 miliwn o ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru yn 2022, cynnydd o 34%, o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Cynyddodd gwariant ar ymweliadau dydd twristiaeth 44% yn ystod yr un cyfnod. Cynyddodd gwariant cyfartalog yn 2022, a allai fod o ganlyniad i gostau cynyddol gweithgareddau fel bwyd, diod a nosweithiau allan (un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd ac â'r gwariant cyfartalog uchaf).

— Gostyngodd teithio traws-genedl yn sylweddol ar gyfer ymweliadau dydd twristiaeth yn 2022. Roedd gostyngiad o 7 pwynt canran i gyfran yr ymweliadau gan drigolion Lloegr â'r Alban a gostyngiad o 10 pwynt canran i ymweliadau gan drigolion Lloegr â Chymru.

— Mae ymweliadau dydd i Gymru wedi'u rhannu'n llawer mwy cyfartal ar draws y gwahanol fathau o leoliad nag ar gyfer y gwledydd eraill, lle ceir ymweliadau â dinasoedd a threfi mawr i raddau helaeth iawn. Yng Nghymru, roedd hanner yr ymweliadau dydd yn 2022 â threfi bach a chefn gwlad. Ar draws Prydain Fawr, bu newid oddi wrth ymweliadau glan môr neu arfordirol, ac nid yw Cymru ddim gwahanol (-5 pwynt canran o gymharu â 2021). Yn yr un modd, bu cynnydd i ymweliadau dydd â dinasoedd a threfi mawr (+6 pwynt canran).

— De-ddwyrain Cymru yw'r brif gyrchfan ar gyfer ymwelwyr dydd i Gymru. Mae hanner yr holl ymweliadau â Chymru a'r gwariant yno yn yr ardal a bu cynnydd o 14 pwynt canran i ymweliadau a chynnydd o 15 pwynt canran yno o ran y gyfran o wariant yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o gymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd i gyfran trigolion De-ddwyrain Cymru sy'n mynd ar ymweliadau dydd yn agosach at eu cartrefi.

— Bu gostyngiad i gyfran yr ymweliadau a ddefnyddiodd drafnidiaeth gyhoeddus yn 2022, gostyngiad o 2 bwynt canran o ran y trên a gostyngiad o 2 bwynt canran o ran bysiau, coetsys neu dacsis. Gallai hyn fod oherwydd y pellteroedd llai a deithiwyd ar gyfer teithiau dydd yn 2022, pan fu cynnydd o 9 pwynt canran i gyfran yr ymweliadau a oedd yn cynnwys teithio 20 milltir neu lai.

— Priodolwyd y rhan fwyaf o wariant ymweliadau dydd twristiaeth i drafnidiaeth, bwyd a diod a siopa arbenigol. Yn 2022, gostyngodd cyfran y gwariant ar drafnidiaeth reilffordd 3 phwynt canran, yn unol â'r gostyngiad mewn defnydd. Roedd cynnydd 3 phwynt canran cyfatebol i gostau tanwydd, er na newidiodd y gyfran o ddefnydd ceir ar ymweliadau. O gymharu â 2021, bu gostyngiad i gyfran y gwariant ar siopa arbenigol (-7 pwynt canran).


— Roedd 1 o bob 5 o ymweliadau dydd twristiaeth wedi'u cyfansoddi o bobl annibynnol hŷn. Mewn cyferbyniad a gwledydd eraill, yr ymweliadau hyn sydd â'r gwariant cyfartalog mwyaf, sef £52 fesul ymweliad, sy'n eithriad, gan fod yr ymweliadau gwariant mawr yn Lloegr a'r Alban gan gyn-nythwyr iau.

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

BMG success decoded


# Cipolwg ar ystadegau twristiaeth ymweliad dydd 2022 Prydain Fawr

## Ymweliadau Dydd Hamdden 3 awr neu fwy 2022 (miliynau)





| Gwlad | Cyfran o Ymweliadau | Cyfran o Wariant |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 100% | 100% |
| Lloegr | 85% | 85% |
| Yr Alban | 10% | 9% |
| Cymru | 6% | 6% |

## Ymweliadau Dydd Twristiaeth 2022 (miliynau)




| Gwlad | Cyfran o Ymweliadau | Cyfran o Wariant |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 100% | 100% |
| Lloegr | 87% | 86% |
| Yr Alban | 9% | 9% |
| Cymru | 6% | 5% |

## Gweithgareddau Craidd i Dwristiaeth Ymweliadau Dydd Twristiaeth 2022 (miliynau)





| Gwlad | Cyfran o Ymweliadau | Cyfran o Wariant |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 100% | 100% |
| Lloegr | 86% | 84% |
| Yr Alban | 11% | 10% |
| Cymru | 6% | 5% |

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Ymweliadau dydd twristiaeth fesul mis yn 2022

Yn yr un modd â theithiau dros nos, cyrhaeddodd ymweliadau dydd â Phrydain Fawr eu brig ym mis Rhagfyr a gwnaed 119.4 miliwn o ymweliadau. Ysgogwyd hyn i raddau health gan ymweliadau â ffrindiau a theulu dros gyfnod y Nadolig. Ar y cyfan, bu 43% yn fwy o ymweliadau dydd yn 2022 (Ebrill i Ragfyr) nag yn 2021 (Ebrill i Ragfyr), ac roedd hyn oherwydd dychweliad araf ymweliadau dydd ym mis Ebrill a mis Mai 2021 yn dilyn cyfyngiadau symud COVID-19.

Cyfanswm yr ymweliadau yn 2022 (miliynau)





| Gwlad | Nifer yr ymweliadau 2022 (miliynau) | Cyfran o ymweliadau 2022 |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | 1,086.2 | |
| Lloegr | 945.0 | 87% |
| Yr Alban | 94.8 | 9% |
| Cymru | 62.0 | 6% |

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Ymweliadau dydd twristiaeth fesul chwarter 2021-2022

Mae ymweliadau dydd â Lloegr wedi cynyddu’n gyson ers Ch 2021, o gymharu chwarteri cyfatebol. Fodd bynnag, mae ymweliadau â’r Alban wedi aros yn sefydlog o Ch2 2022 i raddau health â llawer llai o amrywiad tymhorol. Mae ymweliadau â Chymru yn amrywio fesul tymor ac roedd Ch4 2022 20% yn uwch na Ch4 2021.





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Gwariant ymweliadau dydd twristiaeth fesul chwarter 2021-2022

Er y bu'r gwariant mwyaf erioed o ran teithiau dros nos domestig i Brydain Fawr yn ystod haf (Ch3) 2022 (ers dechrau'r ystadegau Newydd ym mis Ebrill 2021), cafwyd y gwariant uchaf ar gyfer ymweliadau dydd â Phrydain Fawr yn Ch4 2024. Mae hyn oherwydd i wariant yn yr Alban ac yng Nghymru yn Ch4 2022 fynd rhyw fymryn yn uwch na gwariant yn Ch3 ar gyfer y gwledydd hyn.

Cyfanswm gwariant yn 2022 ( £ miliynau)





| Gwlad | Cyfanswm gwariant 2022 (miliynau) | Cyfran o wariant 2022 |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | £45,043 | |
| Lloegr | £38,740 | 86% |
| Yr Alban | £3,937 | 9% |
| Cymru | £2,365 | 5% |

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Gwlad breswylio yn ôl gwlad gyrchfan yn 2022


Mae ymweliadau dydd yn canolbwyntio llawer mwy ar wledydd eu hunain na theithiau dros nos. Trigolion Lloegr aeth ar bron i'r holl ymweliadau dydd twristiaeth â Lloegr ac ymwelodd 8 o bob 10 o drigolion yr Alban yr Alban. Cymru, yn yr un modd â theithiau dros nos, oedd â'r mwyaf o ymweliadau traws-genedl. Yn ddiddorol, o gymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr), gostyngodd ymweliadau dydd gan drigolion Lloegr â'r Alban a Chymru yn sylweddol yn 2022 (Ebrill i Ragfyr). Bu gostyngiad o 7 pwynt canran i'r gyfran o ymweliadau gan drigolion Lloegr â'r Alban a gostyngiad o 10 pwynt canran i ymweliadau gan drigolion Lloegr â Chymru.




Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Gwariant cyfartalog fesul ymweliad 2021-2022

Cynyddodd gwariant cyfartalog fesul ymweliad i bob gwlad ac eithrio'r Alban, o gymharu Ebrill i Ragfyr 2021 ag Ebrill i Ragfyr 2022. Er bod cynnydd mawr i wariant cyfartalog ar deithiau dros nos, mae'r cynnydd ar gyfer ymweliadau dydd yn llawer llai ac yn ymddangos fel pe bai wedi'i effeithio llai gan gostau byw cynyddol.




| Gwlad | Gwariant cyfartalog fesul ymweliad 2021 (Ebrill i Ragfyr) | Gwariant cyfartalog fesul ymweliad 2022 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|---|---|
| Prydain Fawr | £40 | £41 |
| Lloegr | £39 | £40 |
| Yr Alban | £44 | £42 |
| Cymru | £36 | £38 |


Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Prydain Fawr 10,461;Lloegr 8,219; Yr Alban 1,312; Cymru 1,035

# Cymru
# Ymweliadau dydd twristiaeth
# 2021-2022




# Crynodeb o ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru yn 2022


## Ymweliadau dydd twristiaeth 2022 (miliynau)




## Gweithgareddau





## Gwariant tri misol (£ miliynau)




## Gwariant cyfartalog fesul ymweliad

| | |
|---|---|
| Ch1 2022 | £38 |
| Ch2 2022 | £38 |
| Ch3 2022 | £34 |
| Ch4 2022 | £43 |

## Prif Fath o Gyrchfan




Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035


# Ymweliadau dydd twristiaeth a gwariant yng Nghymru 2022

Cynyddodd ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru yn 2022 (Ebrill i Ragfyr) 34%, o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Cynyddodd gwariant ar ymweliadau dydd twristiaeth 44% yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn golygu bod gwariant cyfartalog wedi cynyddu yn 2022, a allai fod o ganlyniad i chwyddiant. Ceir gostyngiad amlwg i ymweliadau dydd a gwariant yn Ch3 2022, a allai fod oherwydd cyfnod gwyliau'r haf lle caiff ymweliadau dydd eu disodli gan deithiau dros nos.


**62.0 miliwn o ymweliadau**

**£2,365 miliwn o wariant**

**Ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru fesul chwarter 2022**




**Gwariant tri misol (£ miliynau) yng Nghymru 2022**





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

BMG success decoded

# Math o leoliad y prif le a ymwelwyd

Mae ymweliadau dydd â Chymru wedi'u rhannu'n llawer mwy cyfartal ar draws y gwahanol fathau o leoliad nag ar gyfer gwledydd eraill, lle ceir ymweliadau â dinasoedd a threfi mawr i raddau helaeth iawn. Ar draws Prydain Fawr, bu newid oddi wrth ymweliadau glan môr neu arfordirol, ac nid yw Cymru ddim gwahanol (-5 pwynt canran o gymharu â 2021). Yn yr un modd, bu cynnydd i ymweliadau dydd â dinasoedd a threfi mawr (+6 pwynt canran). Er bod trefi bach yr Alban wedi cael eu disodli gan ymweliadau â dinasoedd a threfi mawr, mae cyfran yr ymweliadau â threfi bach yng Nghymru wedi aros yn sefydlog.

**Math o Leoliad y Prif Le a Ymwelwyd (miliynau)**





| Math o Leoliad | Ymweliadau 2022 (miliynau) | Cyfran o ymweliadau |
|---|---|---|
| Glan môr neu arfordirol arall | 8.99 | 14% |
| Dinas fawr/ tref fawr | 21.29 | 34% |
| Tref fach | 17.51 | 28% |
| Cefn gwlad/ pentref | 12.51 | 20% |

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Gwariant fesul math o leoliad y prif le a ymwelwyd 2022

Mae hanner gwariant ymweliadau dydd twristiaeth mewn dinasoedd a threfi mawr, ac yna trefi bach, y cynyddodd y ddau eu cyfran o wariant ymweliadau dydd yn 2022 (+7 pwynt canran a +5 pwynt canran yn eu trefn). Gostyngodd y gyfran o wariant ar lan môr (-5 pwynt canran) a chefn gwlad (-6 pwynt canran) yng Nghymru yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Mae hyn yn cyferbynnu â Lloegr, lle cynyddodd y gyfran o wariant ar ymweliadau â chefn gwlad yn sylweddol yn 2022.





| Math o Leoliad | Gwariant 2022 (miliynau) | Cyfran o Wariant |
|---|---|---|
| Glan môr neu arfordirol arall | £307 | 13% |
| Dinas fawr/ tref fawr | £1,177 | 50% |
| Tref fach | £506 | 21% |
| Cefn gwlad/ pentref | £347 | 15% |

Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt ar ymweliadau dydd twristiaeth 2022

Roedd mwyafrif yr ymweliadau dydd twristiaeth yn cynnwys gweithgareddau fel ymweld â ffrindiau neu berthnasau, mynd i atyniad ymwelwyr neu fwyd, diod, noson allan, neu siopa arbenigol. Mae hyn yr un fath ar draws Prydain Fawr i raddau helaeth. Cynyddodd ymweliadau lle mai'r prif weithgareddau oedd mynd i ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnwyd a mynd i atyniadau ymwelwyr yn sylweddol yn 2022, wrth i'r sectorau digwyddiadau ac atyniadau ddychwelyd yn dilyn cyfyngiadau COVID-19.

**Gweithgareddau ar ymweliadau dydd twristiaeth 2022**




| % y newid ers 2021 (Ebrill i Ragfyr) |
|---|
| 46% |
| 113% |
| 26% |
| 7% |
| 3% |
| 10% |
| 88% |
| 129% |
| 101% |
| Maint sylfaen yn rhy fach |


Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

SYLWER: Mae'r sleid yn dangos cyfran yr ymweliadau a oedd yn cynnwys pob gweithgaredd, mae'n dod i gyfanswm o fwy na 100% gan y gellid cymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd ar ymweliad.

# Gwariant ar ymweliadau dydd twristiaeth fesul gweithgaredd 2022

Er i ymweliadau dydd a oedd yn cynnwys mynd i atyniad ymwelwyr gynyddu yn 2022, nid oedd unrhyw newid i'r gyfran o wariant ar ymweliadau dydd a oedd yn cynnwys y gweithgaredd hwn. Roedd yr ail wariant cyfartalog uchaf ar ymweliadau i fynd i ddigwyddiad cyhoeddus a drefnwyd, sef £44 fesul ymweliad. Ymweliadau a oedd yn cynnwys bwyd a diod, noson allan neu siopa arbenigol oedd rhai o'r mwyaf poblogaidd ac a oedd â'r gwariant uchaf, yn cynrychioli 1 o bob 5 o ymweliadau ac yn gyfrifol am 37% o wariant ymweliadau yng Nghymru.

## Cyfran o ymweliadau a gwariant fesul gweithgaredd 2022




Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

SYLWER: Mae'r sleid yn dangos cyfran yr ymweliadau a oedd yn cynnwys pob gweithgaredd, mae'n dod i gyfanswm o fwy na 100% gan y gellid cymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd ar ymweliad.

BMG success decoded


# Proffil ymweliadau Cymru



# Ymweliadau a gwariant fesul rhanbarth a ymwelwyd 2022

De-ddwyrain Cymru yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer ymwelwyr dydd â Chymru. Mae hanner yr holl ymweliadau â Chymru a'r gwariant yno a bu cynnydd o 14 pwynt canran i ymweliadau a chynnydd o 15 pwynt canran yno o ran y gyfran o wariant yn 2022 (Ebrill i Ragfyr), o gymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd i gyfran trigolion De-ddwyrain Cymru sy'n mynd ar ymweliadau dydd yn agosach at eu cartrefi.

**Rhanbarth a ymwelwyd yng Nghymru 2022**





| Rhanbarth | Cyfran o Ymweliadau 2022 | Cyfran o Wariant 2022 |
|---|---|---|
| Canolbarth Cymru* | 8% | 4% |
| Gogledd Cymru | 21% | 19% |
| De-ddwyrain Cymru | 51% | 53% |
| De-orllewin Cymru | 22% | 23% |

*Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig.
Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Trafnidiaeth a ddefnyddiwyd 2022

Defnyddiwyd cerbydau modur preifat ar gyfer y mwyafrif o ymweliadau dydd twristiaeth yn 2022. Er na fu unrhyw newid i’r gyfran o ymweliadau a ddefnyddiodd gar ers 2021, cynyddodd perchnogaeth car 2 bwynt canran. Bu gostyngiad i gyfran yr ymweliadau a ddefnyddiodd drafnidiaeth gyhoeddus yn 2022, gostyngiad o 2 bwynt canran i drenau a gostyngiad o 2 bwynt canran i fysiau, coetsys neu dacsis. Gallai hyn fod oherwydd y pellteroedd byrrach a deithiwyd ar gyfer teithiau dydd yn 2022.


## Trafnidiaeth a Ddefnyddiwyd yn 2022




## Hyd yr ymweliad yn 2022

**90%**

## Defnydd o gerdyn teithio





*Ni ddangosir maint sylfaen llai na 30
Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035


# Pellter a deithiwyd a nifer y lleoedd a ymwelwyd

Yn 2022, bu cynnydd i gyfran yr ymweliadau dydd twristiaeth a oedd yn cynnwys teithio 20 milltir neu lai (+9 pwynt canran), a gostyngiad cyfatebol (-9 pwynt canran) i'r gyfran a deithiodd 21 o filltiroedd a mwy. Roedd ymweliadau â Chymru hefyd rhyw fymryn yn fyrrach yn 2022, â chynnydd o 2 bwynt canran i gyfran a wnaeth bara llai na 5 awr. Aeth mwyafrif yr ymweliadau dydd i un lle yn unig, cynnydd o 6 phwynt canran o 2021. Roedd tueddiad tebyg o ran teithiau dros nos, a leihaodd o ran hyd a nifer y lleoedd a ymwelwyd. Gallai hyn fod mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

## Pellter a deithiwyd yn 2022




## Hyd yr ymweliad yn 2022




## Nifer y lleoedd a ymwelwyd yn 2022





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035


# Cyfnod oes a phroffil oed ar gyfer ymweliadau dydd 2022

Gwnaed 1 o bob 5 o ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru gan bobl hŷn annibynnol. Mewn cyferbyniad a gwledydd eraill, yr ymweliadau hyn sydd â'r gwariant cyfartalog uchaf, sef £52 fesul ymweliad, o'i gymharu â £38 fesul ymweliad yn gyffredinol. Er i gyfran yr ymweliadau gan bobl 45-64 oed ostwng yn 2022 (-8 pwynt canran), y rhai hefyd sydd â'r gwariant cyfartalog uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn gwneud Cymru yn neilltuol, gan fod yr ymweliadau gwariant mawr yn Lloegr a'r Alban gan gyn-nythwyr iau.

## Cyfnod oes




## Oedran





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

BMG success decoded


# Maint parti ymweliadau 2022

Er bod mwyafrif yr ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru yn cynnwys partïon o 2 neu lai, roedd cynnydd o 3 phwynt canran i'r gyfran o ymweliadau dydd â phartïon o 10 person a mwy yn 2022. Gostyngodd y gyfran o ymweliadau dydd â phlant yn rhan o'r ymweliad 4 pwynt canran yn 2022, sydd yr un gostyngiad canrannol a welwyd mewn teithiau dros nos i Gymru. Mae hyn er gwaethaf cynnydd i'r gyfran o ymweliadau dydd â phlant ar yr aelwyd.

## Maint Parti




## Plant (iau nag 16 oed) ym Mharti'r Ymweliad





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035


# Cyfansoddiad partïon ymweliadau 2022

Dim ond 1 o bob 10 o ymweliadau â Chymru oedd yn rhan o grŵp mwy (e.e. parti coets, grŵp teithio, taith ysgol) yn 2022, sy'n ostyngiad o 2 bwynt canran o'i chymharu â 2021. Dathliadau a theithio gyda thîm neu glwb cymdeithasol oedd y math mwyaf poblogaidd o grŵp mawr yn 2022. Mewn cyferbyniad â theithiau dros nos, mae gwariant cyfartalog ar gyfer ymweliadau dydd â grŵp mawr (£34) yn llai na'r rhai nad ydynt gyda grŵp mawr (£39).

## Rhan o Barti Mwy




## Math o Barti Mawr





Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Ymweliadau a gwariant fesul rhanbarth preswylio 2022

Gwneir y mwyafrif o ymweliadau dydd â Chymru gan drigolion Lloegr a De-ddwyrain Cymru. Bu cynnydd o 12 pwynt canran i'r gyfran o ymweliadau gan drigolion De-ddwyrain Cymru yn 2022 (Ebrill i Ragfyr) o'i chymharu â 2021 (Ebrill i Ragfyr). Byddai hyn yn esbonio'r cynnydd i ymweliadau â De-ddwyrain Cymru a'r pellteroedd byrrach a deithiwyd yn 2022. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, bu gostyngiad o 10 pwynt canran i'r gyfran o drigolion Lloegr a ymwelodd â Chymru yn 2022.

**Ymweliadau fesul rhanbarth preswylio (miliynau)**





| Rhanbarth | Cyfran o Ymweliadau 2022 | Cyfran o Wariant 2022 |
|---|---|---|
| Lloegr | 39% | 39% |
| Canolbarth Cymru* | 2% | 2% |
| Gogledd Cymru* | 6% | 4% |
| De-ddwyrain Cymru | 38% | 38% |
| De-orllewin Cymru | 12% | 13% |
| Yr Alban | ** | ** |

* Mae maint y sylfaen rhwng 30 a 100, argymhellir defnyddio'r amcangyfrifon ar sail ddangosol yn unig. **Eithriwyd meintiau sylfaen o lai na 30.
Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Dadansoddiad gwariant ymweliadau dydd 2022

Defnyddir y rhan fwyaf o wariant ymweliadau dydd ar gyfer trafnidiaeth, bwyd a diod a siopa arbenigol. Yn 2022, gostyngodd y gyfran o wariant ar drafnidiaeth reilffordd 3 phwynt canran, yn unol â'r gostyngiad mewn defnydd. O gymharu â 2021, bu gostyngiad i'r gyfran o wariant ar siopa arbenigol (-7 pwynt canran), a ddisodlwyd gan atyniadau ac adloniant (+3pwynt canran) a chostau tanwydd (+3 pwynt canran).




Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

# Gwariant cyfartalog ar ymweliadau dydd twristiaeth

Roedd gwariant cyfartalog ar y mwyafrif o ymweliadau dydd twristiaeth yn £40 neu lai. Gwariodd 1 o bob 10 ddim o gwbl, ac roedd yr ymweliadau dydd hyn i weld ffrindiau a pherthnasau yn bennaf. Fodd bynnag, roedd gan 9% wariant cyfartalog o fwy na £100 fesul ymweliad. Roedd yr ymweliadau hyn yn fwy tebygol o fod â dinasoedd a threfi mawr, wedi'u cyfansoddi o bobl 55-64 oed ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel bwyd, diod, noson allan neu siopa arbenigol.

**Gwariant cyfartalog ar ymweliadau dydd twristiaeth 2022 (gan gynnwys dim gwariant)**




Ffynhonnell: Ystadegau Ymweliadau Dydd Twristiaeth Prydain Fawr (GBDVS) 2022
Sylfaen: Cymru 1,035

BMG success decoded